**WHC (2020) 022**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

**Dyddiad Cyhoeddi:** 9 Tachwedd 2021

**STATWS: GWEITHREDU**
**CATEGORI: CYNLLUNIO**

**Teitl: FFRAMWAITH CYNLLUNIO GIG CYMRU 2022-2025**

**Dyddiad dod i ben:** Tachwedd 2023

**I'w weithredu gan:**

Y Byrddau Iechyd
Ymddiriedolaethau'r GIG
Sefydliadau Cymorth y GIG
Awdurdodau Iechyd Arbennig y GIG

**Angen gweithredu erbyn:**

Cyfnod cynllunio 2022-2025

**Anfonwr:** Samia Saeed-Edmonds, Cyfarwyddwr y Rhaglen Gynllunio

**Enw(au) Cyswllt GIGC Llywodraeth Cymru: Trish Harper, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cynllunio'r GIG Patricia.harper@llyw.cymru**

**Dogfennau amgaeedig:**

- Llythyr gan Judith Paget
- FFRAMWAITH CYNLLUNIO GIG CYMRU 2022-2025

Annwyl gyfeillion,

Mae’r ddyletswydd statudol i baratoi Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn deillio o Ddeddf GIG (Cymru) 2006, ac mae’n cael ei chryfhau gan Ddeddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014. Y nod yw sicrhau bod y byrddau iechyd yn mantoli eu cyllidebau dros gyfnod cyfrifyddu o dair blynedd. Er inni fynd drwy gyfnod hynod heriol dros y 18 mis diwethaf, mae’n hefyd yn hynod bwysig sicrhau ein bod yn dychwelyd at ein trefniadau cynllunio arferol er mwyn cefnogi’r gwaith o adfer ac ymsefydlogi.

Mae’r fframwaith hwn yn gosod y cyfeiriadau Gweinidogol ar gyfer y flwyddyn nesaf, gan gadarnhau’r blaenoriaethau Gweinidogol sydd wedi cael eu cyfathrebu i’r GIG yng Nghymru yn rheolaidd yn ystod y misoedd diwethaf.


Mae datblygu a chyhoeddi’r Fframwaith Cynllunio ar gyfer 2022-2025 yn gam pwysig o ran cydnabod yr hyn y mae angen i GIG Cymru ei wneud i ailgydio yn ei waith cynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae’r cyhoeddiad hwn yn digwydd ar adeg dyngedfennol wrth inni gydnabod y pwysau sydd ar y system ac ar bawb sy’n gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Rwy’n disgwyl i’ch Cynlluniau Tymor Canolig Integredig gael eu datblygu ar y cyd â’ch byrddau/pwyllgorau a’ch sefydliadau partner. Rhaid i fyrddau iechyd gydweithio, ar draws ffiniau sefydliadol, i gynllunio a chyflawni ar sail ranbarthol.

Rhaid i bob cynllun gael cymeradwyaeth gan y bwrdd/pwyllgor cyn iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. **Disgwylir i sefydliadau gyflwyno cynllun, sydd wedi ei gymeradwyo gan y bwrdd, erbyn 28 Chwefror 2022.** Hefyd, mae’n ofynnol i bob sefydliad gyflwyno templedi a Set Ddata Ofynnol, lle y bo’n briodol.

Bydd Samia Saeed Edmonds, Cyfarwyddwr y Rhaglen Gynllunio, a’r Tîm Cynllunio, yn parhau i ymgysylltu â chi i gynnig cymorth.

Yn gywir



Judith Paget
Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru

https://llyw.cymru/fframwaith-cynllunio-blynyddol-gig-cymru-2022-i-2025
https://gov.wales/nhs-planning-framework-2022-2025